


Adnodd yn seiliedig ar bwnc

Tir Yr Ysgol

Cyfnod Sylfaen



Eco-Schools



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

3 IECHYD A
LLESIANT DA



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidi

Gwybodaeth gefndirol

Mae tir yr ysgol ysgol yn rhan bwysig o fywyd ysgol, maent yn darparu lle diogel a hygyrch i blant, sy'n treulio llai o amser yn yr awyr agored nag erioed o'r blaen, dilyn ffyrdd o fyw mwy llonydd a chysylltu llai â'r byd naturiol na chenedlaethau o'r blaen. Gall hyn gael effaith ar iechyd corfforol a llesiant cymdeithasol ac emosiynol plant.

Gall ardal awyr agored ar diroedd ysgol gynnig ystod o fuddion - awyr iach, lle i symud yn rhydd, y cyfle i chwarae a chysylltu â natur, helpu i wella cyflawniad, a gwella hunan-barch, ymddygiad a datblygu sgiliau. Gall tir yr ysgol sydd wedi cael ei ddatblygu yn ystyriol er mwyn ysgogi disgyblion ac a ddefnyddir yn y ffurf gorau posib gyfoethogi addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned ehangach.



Safbwynt hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw'r newid mewn patrymau tywydd ar draws y byd, y cyfrannir ato gan weithgareddau dynol megis datgoedwigo a llosgi tanwyddau ffosil. Mae'r rhain yn arwain at ryddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill i atmosffer y Ddaear. Creda gwyddonwyr fod y gweithgareddau hyn yn cyfrannu at gynhesu byd-eang. Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith ar fywydau plant yn fyd-eang, gan effeithio ar eu sicrwydd bwyd, mynediad at ddŵr, aer glân, addysg a gofal iechyd. Mae effeithiau patrymau tywydd newidiol yn achosi cynnydd yn lefel y môr, llyfogydd, sychder a llygredd

dŵr, bob un ohonynt yn peryglu iechyd a llesiant plant, ac yn y pen draw, eu dyfodol.

Mae gennym gyfrifoldeb i helpu cenedlaethau'r dyfodol i ofalu am, ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol a deall heriau newid yn yr hinsawdd drwy addysg.

"No one will protect what they don't care about; and no one will care about what they have never experienced," David Attenborough.

Tyfu Wigwam

Cyfnod Sylfaen

Cuddfan fyw


Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i ddysgu am yr hyn sydd ei angen ar blanhigion i dyfu, gofalu am yr amgylchedd, darparu lle ar gyfer natur, tyfu bwyd ar gyfer peillwyr a bodau dynol, cysgod rhag yr haul a chuddfan wych i guddio ynddi! Mae'n bosib tyfu'r ffa mewn potiau mawr neu gafnau, neu yn y ddaear os oes gennych lle. Mae'r cyfarwyddiadau yn dechrau gyda thyfu'r eginblanhigion mewn potiau llai i'w trosglwyddo i gynwysyddion mwy neu'r ddaear fel eginblanhigion pan fyddant yn ddigon mawr. Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio'n dda gyda phys pêr neu ffa Ffrengig sy'n dringo hefyd.

Deunyddiau sydd eu hangen:

- Potiau planhigion wedi'u haildefnyddio, cynhwysydd bwyd wedi'i ail-bwrpasu neu gwpan coffi i fynd wedi'i ddefnyddio - potiau bach unigol fesul plentyn neu botiau mawr fesul grŵp
- Compost heb fawn
- Hadau ffa dringo
- Ffyn cyll neu gansenni bambŵ
- Llinyn/cortyn garddio
- Trywel



Cam 1



Llenwch y potiau â chompost heb fawn neu bridd hyd nes eu bod dwy ran o dair yn llawn. Rhwch yr hedyn ffa dringo i mewn a'i orchuddio gyda chompost. Pwyswch i lawr a dyfriwch.

Cam 2

Rhowch y potiau mewn hambwrdd ar sil ffenestr heulog neu mewn tŷ gwydr a chadwch y pridd yn wlyb hyd nes y mae hadau yn tyfu ac eginblanhigion yn ymddangos.

Cam 3



Penderfynwch ymhle mae eich wigwam yn mynd i dyfu. Paratowch y pridd drwy gael gwared ar yr haen uchaf o dywyrch (turf) os yw'n angenrheidiol, gan dynnu chwyn ac ychwanegu compost neu lenwi potiau mawr neu gafnau gyda chompost heb fawn.

Cam 4



Trefnwch eich ffyn cyll neu gansenni bambŵ yn gylch gan sicrhau bod pellter cyfartal rhyngddynt a gadael bwlch o chwarter i draean o'r cylch ar gyfer y fynedfa i'r wigwam. Gwthiwch waelodion y ffyn i mewn i'r pridd yn y ddaear neu'r potiau mawr. Clymwch bennau'r ffyn gyda'i gilydd yn dynn gan ddefnyddio'r llinyn.



Defnyddiwch dameidiau eraill o llinyn i'w gweu ar hap rhwng y ffyn i greu strwythur cefnogi i'r ffa ei dringo.

Cam 5

Tyllwch dyllau digon mawr i ffitio'r eginblanhigion a'r pridd o'u pot presennol ynddynt naill ochr i waelod pob ffon. Os ydych yn greu strwythur wigwam mawr, gallech blannu trydydd eginblanhigyn ar ochr allanol y cylch wrth fôn pob ffon.



Efallai yr hoffech orchuddio eich strwythur yn ofalus gyda deunydd ysgafn hyd nes y mae'r ffa yn dechrau cyrraedd brig y polion i greu effaith 'cuddfan', gan atgoffa'r plant i fod yn ofalus o'r eginblanhigion.

Cam 6



Dyfriwch yr eginblanhigion yn rheolaidd a gwiriwch fod y ffa yn dringo'r llinynnau a ffyn cefnogi yn gyfartal, gan weu'r pennau sy'n tyfu pan fo angen. Gwylwch y peillwyr yn ymweld â'r blodau ac yn casglu'r ffa pan fyddant yn barod!

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Mathemateg a Rhifedd

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

Camau nesaf a syniadau eraill

- Cyfrifwch eich ffa, potiau a pholion, mesurwch eich llinyn a pha mor fawr yw eich cylch, siaradwch am faint o ddyddiau a faint o ddŵr oedd ei angen.
- Dysgwch am gylchoedd bywyd planhigion drwy blannu eich hadau ffa mewn cynhwysydd clir wedi'i ailddefnyddio e.e. pot plastig di-liw gyda thyllau yn y gwaelod. Gosodwch yr hedyn lle gellir ei weld yn ochr y pot wrth blannu
- Darllenwch Jac a'r Goeden Ffa
- Darllenwch 'Jasper's Beanstalk' gan Nick Butterworth a Mick Inkpen
- Ysgrifennwch stori am eich wigwam o safbwynt person bach iawn (fel Jac a'r Goeden Ffa)
- Ysgrifennwch gerdd am eich wigwam o safbwynt gwenwyn, glöyn byw, neu bryf hofran (hoverfly)
- Sefydlwch ganolfan arddio ar gyfer chwarae rôl yn eich ardal y tu allan
- Dysgwch fwy am beillwyr a sut allwch chi ddarparu bwyd iddynt
- Edrychwch ar gadwyni bwyd
- Crëwch ddarn o waith celf wedi'i ysbrydoli gan eich wigwam ffa e.e. collage yn defnyddio papur newydd neu ddeunyddiau eraill o'r bin ailgylchu

Cydnabyddiaeth am y llun: Jean Van't Hul a Bronwen Parry



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 395 8 13

